Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Cynllunio Creu Coetir

## Y Gofrestr Cynlluniau Coetir

## Canllawiau i Gwsmeriaid

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllawiau hyn yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae fersiwn Gymraeg o'r canllawiau hyn ar gael drwy fynd i https://www.llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir a newid yr iaith ar y botwm ar ben y dudalen ac ail agor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

©Hawlfraint y Goron 2023 ISBN 978-1-83504-802-3

## Cynnwys


Cyflwyniad .... 4
Dewis cynlluniau ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS) .... 4
Sut i gael mynediad at y Gofrestr Cynlluniau Coetir .... 4
Derbyn y cynnig i ddewis eich cynllun .... 5
Enwi eich Cynllun Coetir .... 6
Dewis Cynllunydd Coetir .... 6
Sgrin y Cynllun Coetir .... 7
Beth fydd yn digwydd nesaf .... 7
Trosolwg o Sgrin y Cynllun Coetir .... 8
- Y Tab Map .... 8
- Y Cynllun Gweithrediadau .... 9
- Y Tab Cynllun .... 10
- Y Tab Arolygon .... 10
- Y Tab Dogfennau .... 11

Dilysu'r Cynllun Creu Coetir .... 11
Canlyniad y Broses Ddilysu .... 11
Atodiad A: Disgrifiad o Statws y Cynllun .... 12

## Cyflwyniad

Y Gofrestr Cynlluniau Coetir yw'r hyb canolog ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, ac mae wedi'i chreu i symleiddio'r broses cynllunio coetir ar gyfer pob parti yn ystod y broses greu a dilysu. Bydd mapiau *Shapefile* wedi'u darparu gan gynllunwyr coetir bellach yn gael eu lanlwytho drwy'r Gofrestr, a rhoddir adborth uniongyrchol i gynllunwyr o ran dilysrwydd y mapiau. Bydd hyn yn cyflymu'r broses. Bydd yr holl ddogfennau cynllunio cysylltiedig yn cael eu storio yn y Gofrestr, gan alluogi cwsmeriaid i fonitro eu cynllun coetir wrth iddo fynd drwy bob cam o'r broses.

## Dewis cynlluniau ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS)

Ar ôl cyflwyno datganiad o ddiddordeb i'r cynllun, yn dilyn y broses ddilysu, mae'n bosibl y bydd eich datganiad o ddiddordeb yn cael ei ddewis ar gyfer cam nesaf y cynllun. Os yw eich cynllun yn cael ei ddewis, anfonir llythyr drwy negeseuon eich cyfrif RPW Ar-Lein yn gofyn ichi fynd i adran y Gofrestr Cynlluniau Coetir yn RPW Ar-lein er mwyn derbyn neu wrthod y cynnig i ddewis eich cynllun.

## Sut i gael mynediad at y Gofrestr Cynlluniau Coetir

Mae angen cael mynediad at y Gofrestr Cynlluniau Coetir drwy eich cyfrif RPW Ar-lein – mae opsiwn ar gyfer **Cynlluniau Coetir** wedi cael ei ychwanegu at y bar dewislenni. Cliciwch ar **Cynlluniau Coetir** i weld rhestr o unrhyw gynlluniau sydd wedi cael eu dewis ar gyfer mynd i gam nesaf y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Os nad oes gennych gynllun wedi'i ddewis ar hyn o bryd bydd y rhestr hon yn wag.





Rhoddir **Cyfeirnod Cynllun** newydd i bob cynllun yn y system i'w gwneud yn haws olrhain cynnydd y cynllun drwy'r broses ddilysu, ar y fformat 'WPR00000'. Byddwch hefyd yn gweld statws eich cynllun (gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth am statws) a fydd yn rhoi cipolwg ar le mae eich cynllun wedi cyrraedd yn y broses ddilysu. Os yw wedi cael ei ddewis, byddwch hefyd yn gweld enw eich cynllun a'r cynllunydd coetir rydych wedi'i ddewis i greu eich cynllun.

## Derbyn y cynnig i ddewis eich cynllun

Cliciwch ar y botwm **Gweld** i agor cynllun yn eich rhestru o gynlluniau a ddewiswyd nad ydych wedi derbyn y cynnig eto.




Os mai dyma'r tro cyntaf ichi agor y cynllun bydd angen ichi nodi a ydych am Dderbyn neu Wrthod y Cynnig. Dewiswch eich opsiwn a phwyso **Parhau.**





- Os ydych yn **derbyn** y cynnig, byddwch yn parhau i'r sgrin nesaf.
- Os ydych yn **gwrthod** y cynnig bydd eich cynllun yn cael ei dynnu'n ôl o'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Sylwer: os na chymerir unrhyw gamau i dderbyn neu wrthod y cynnig o fewn 30 diwrnod i'ch cynllun gael ei ddewis, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl yn awtomatig a bydd statws y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.


## Enwi eich Cynllun Coetir

Ar ôl ichi dderbyn y cynnig, gofynnir ichi roi enw ar gyfer eich cynllun. Rhowch yr enw rydych wedi'i ddewis yn y blwch a roddir a chliciwch ar **Parhau.** Nodwch os ydych yn **Canslo** ar yr adeg hon cewch ddod yn ôl nes ymlaen a pharhau ag enwi eich cynllun.




## Dewis Cynllunydd Coetir

Ar ôl ichi enwi eich cynllun gofynnir ichi nodi'r busnes cynllunio coetir rydych wedi'i ddewis ymlaen llaw i greu eich cynllun coetir. Bydd yr holl fusnesau sydd wedi cael eu cofnodi ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir yn ymddangos yn y gwymplen – nodwch y busnes rydych wedi'i ddewis a phwyso **Parhau.** Os nad ydych wedi dewis busnes cynllunio hyd yn hyn, cewch bwyso **Canslo** ar yr adeg hon a mynd yn ôl nes ymlaen pan fyddwch wedi gwneud hynny.




Sylwer: Os nad yw'r cynllunydd rydych wedi'i ddewis yn ymddangos ar y rhestr, gofynnwch i'r busnes cynllunio gysylltu â Thîm Cyswllt Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru.

## Sgrin y Cynllun Coetir

Pan fyddwch wedi dewis eich cynllunydd coetir, byddwch yn gweld sgrin y cynllun coetir. Bydd y sgrin ddiofyn yn dangos map o'r parseli tir a ddewiswyd ar eich datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir ar y chwith, gyda manylion ar yr ochr dde yn dangos manylion y cynllun, gan gynnwys y statws presennol, cyfeirnod y cynllun, enw'r cynllun a'r cynllunydd rydych wedi'i ddewis.

Y pedwar tab sydd ar gael yw *Map, Cynllun, Arolygon* a *Dogfennau* – ar yr adeg hon ni fyddwch yn gallu gweld unrhyw beth, ond wrth i'r cynllunydd wneud cynnydd bydd y tabiau hyn yn cael eu llenwi â gwybodaeth am eich cynllun.  Ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r data ar y sgriniau hyn, dim ond eu gweld. Cewch ddod yn ôl a gweld cynnydd eich cynllun coetir ar unrhyw adeg.




** Dim ond os cyflwynwyd EOI WCPS o Ffenestr 3 ymlaen WCPS, pan gyflwynwyd y gofyniad i ychwanegu'r manylion hyn at EOI WCPS am y tro cyntaf, y bydd y meysydd cyfeirnod Cyn Ymgeisio a dyddiad Cyn Ymgeisio wedi eu llenwi.*

## Beth fydd yn digwydd nesaf

Anfonir gwahoddiad electronig at y cynllunydd coetir rydych wedi'i ddewis, a bydd y cynllunydd yn penderfynu dewis neu wrthod eich gwahoddiad. Byddwch yn cael eich hysbysu drwy adran negeseuon eich cyfrif RPW Ar-lein pan fydd y cynllunydd wedi derbyn y gwahoddiad – bydd y cynllunydd wedyn yn dechrau ar y broses o ymgynghori â chi mewn perthynas â'ch anghenion, a chreu eich cynllun coetir.  Bydd gan y cynllunydd coetir 12 wythnos o ddyddiad dewis eich cynllun i greu a chyflwyno eich cynllun.

Sylwer: Ni ddisgwylir y bydd cynllunydd yn gwrthod eich gwahoddiad, gan y byddwch wedi cysylltu ag ef ymlaen llaw; fodd bynnag, os yw hyn yn digwydd, byddwch yn cael eich hysbysu drwy adran negeseuon eich cyfrif RPW Ar-lein, a chewch ddewis cynllunydd coetir arall o'r Rhestr Cynllunwyr Coetir (unwaith eto, dylech fod wedi cysylltu ag ef ymlaen llaw).

## Trosolwg o Sgrin y Cynllun Coetir


Wrth i'r cynllunydd wneud cynnydd ar eich cynllun, bydd pob un o'r tabiau'n dangos tic gwyrdd i ddangos bod y rhan honno o'r cynllun wedi'i chwblhau. Pan fydd pob tab yn dangos tic gwyrdd bydd y cynllun yn barod i'w gyflwyno. Isod mae esboniad o'r hyn y gallwch ddisgwyl ei weld ar bob tab.

### Y Tab Map

Yn ystod y broses gynllunio, bydd eich cynllunydd yn creu a lanlwytho map o'r ardaloedd y byddwch yn eu plannu a'u ffensio gan ddefnyddio meddalwedd Wybodaeth Ddaearyddol – bydd y *Shapefile* a lanlwythir yn ymddangos ar sgrin y cynllun coetir.

Mae'r llinellau coch yn nodi eich parseli tir, y polygonau glas yn nodi'r ardaloedd plannu, y dotiau melyn yn nodi ffensiau a'r dotiau coch yn nodi gatiau.

Mae cyfeirnodau'r parseli tir yn cael eu dangos ar y sgrin, fel y mae ID unigryw'r holl ardaloedd plannu/ffensys neu'r gatiau sydd wedi'u mapio. I chwyddo'r map cliciwch ar y botwm **toglo sgrin lawn**.




Sylwer, mae'r map hwn wedi'i greu mewn fformat o'r enw *ESRI Shapefile*. Gall cwsmeriaid lawrlwytho'r *Shapefile* os oes angen – fodd bynnag, mae angen meddalwedd a gwybodaeth arbenigol i weld neu olygu mapiau *Shapefile*.

## Y Cynllun Gweithrediadau

O dan sgrin y map, pan fydd *Shapefile* dilys wedi cael ei lanlwytho gan y cynllunydd, byddwch yn gweld tabl yn dangos Cynllun Gweithrediadau, sy'n dangos opsiynau plannu, meintiau a mathau o rywogaethau coed, a'r ffensys a'r gatiau cysylltiedig.

**Cynllun gweithrediadau**

| |
|---|
| Cyfanswm wedi'i blannu: 33.17 hectar |
| Cyfanswm wedi'i ffensio: 674.44 m |
| Cyfanswm y gatiau: 2 |

Ehangu pob adran | Cwympo pob adran

| Cyfeirnod yr eitem | Opsiwn | Maint | |
|---|---|---|---|
| 2 | (P003) Carbon - Brodorol | 16.01 ha | Dangos ar y Map |
| Ffensiau a gatiau | | | |
| Rhywogaethau coed (3) | | | |
| 1 | (P003) Carbon - Brodorol | 13.73 ha | Dangos ar y Map |
| Ffensiau a gatiau | | | |
| Rhywogaethau coed (3) | | | |
| 3 | (P002) Bioamrywiaeth - Brodorol 1600 | 3.43 ha | Dangos ar y Map |
| Rhywogaethau coed (3) | | | |

Gallwch glicio ar y botwm **Dangos ar y Map** ar bwys pob opsiwn i chwyddo'r map i weld yr opsiwn hwnnw. Gallwch hefyd ehangu pob llinell i ddangos gwybodaeth fanwl ynghylch yr opsiwn:

| Cyfeirnod yr eitem | Opsiwn | Maint | |
|---|---|---|---|
| 2 | (P003) Carbon - Brodorol | 16.01 ha | Dangos ar y Map |

Ffensiau a gatiau

| Cyfeirnod yr eitem | Opsiwn | Maint | |
|---|---|---|---|
| 5 | (P518) Ffens ceirw | 335.84 m | Dangos ar y Map |


| Cyfeirnod yr eitem | Opsiwn | |
|---|---|---|
| 7 | (P517) Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | Dangos ar y Map |

Rhywogaethau coed (3)

| Cod | Enw | Canran |
|---|---|---|
| IAR | Gwernen Eidaleg | 50% |
| AH | Onnen | 30% |
| BPO | Poplysen ddu | 20% |


## Y Tab Cynllun

Mae'r Tab Cynllun yn dangos y Cynllun Creu Coetir wedi'i lanlwytho gan eich cynllunydd coetir. Cliciwch ar y botwm **Lawrlwytho** i lawrlwytho a gweld copi o'r cynllun. Nodwch fel arfer y bydd y cynllun ar fformat Microsoft Word neu Adobe PDF, felly mae'n rhaid ichi fod â'r feddalwedd briodol ar eich cyfrifiadur er mwyn gweld y ddogfen.





## Y Tab Arolygon

Os yw eich cynllunydd wedi nodi unrhyw arolygon sydd eu hangen, a'r bwriad yw hawlio am gost yr arolygon hyn ynghyd â'r ffioedd am greu'r cynllun coetir, byddant yn cael eu rhestru yma. Bydd y tab yn dangos faint o arolygon sydd wedi cael eu hychwanegu mewn cromfachau.



### Y Tab Dogfennau

Mae'r Tab Dogfennau yn dangos unrhyw ddogfennau ategol wedi'u lanlwytho gan eich cynllunydd coetir. Mae nifer y dogfennau sydd wedi'u hychwanegu'n cael ei ddangos ar y tab mewn cromfachau. Cliciwch ar y botwm **Lawrlwytho** i lawrlwytho copi o bob eitem yn ôl yr angen. Gall y dogfennau fod mewn amrywiaeth o fformatau, er enghraifft, ffotograffau, mapiau, a dogfennau Word a PDF, felly rhaid bod gennych y feddalwedd briodol ar eich cyfrifiadur er mwyn eu gweld nhw.




Sylwer: mae dogfennau ategol yn ddewisol, felly mae'n bosibl na fydd unrhyw ddogfennau ar gael ar y tab hwn, yn dibynnu ar ofynion y cynllun.

## Dilysu'r Cynllun Creu Coetir

Pan fydd y cynllunydd wedi gorffen creu eich cynllun, bydd yn cael ei gyflwyno i'w ddilysu. Yn ystod y broses ddilysu, mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiadau er mwyn ystyried ffactorau amgylcheddol neu ffactorau eraill a all ddod i'r amlwg. Byddwch yn gallu gweld eich cynllun ar unrhyw adeg i wirio'r cynnydd.

## Canlyniad y Broses Ddilysu

Pan fydd y broses ddilysu ar gyfer eich cynllun wedi cael ei chwblhau byddwch yn cael eich hysbysu fel a ganlyn:

- **Dilysu wedi'i Gymeradwyo** – byddwch yn derbyn llythyr yn dweud bod y dilysu wedi bod yn llwyddiannus ynghyd â map o'r cynllun wedi'i ddilysu. Bydd eich cynllun wedi'i ddilysu bellach yn eich galluogi i ymuno â chynllun y Grant Creu Coetir yn ystod y cyfnod nesaf sydd ar gael. Byddwch yn cael hawlio ffioedd am greu'r cynllun a ffioedd am arolygon (os ydynt yn berthnasol ac yn gymwys) hyd at £5,000.
- **Dilysu heb ei Gymeradwyo** – byddwch yn derbyn llythyr yn dweud nad yw'r dilysu wedi bod yn llwyddiannus, gan roi'r rhesymau pam nad yw'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo. Bydd eich cynllun a'r datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn gael eu gwrthod. Byddwch yn cael cyflwyno datganiad o ddiddordeb arall ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn y flwyddyn galendr nesaf os oes angen. Byddwch yn cael hawlio ffioedd am arolygon (os ydynt yn berthnasol ac yn gymwys) hyd at £5,000.

## Atodiad A: Disgrifiad o Statws y Cynllun

Bydd statws eich cynllun yn newid nifer o weithiau yn ystod y broses gynllunio. Isod mae disgrifiad o bob statws:

| Statws | Disgrifiad |
|---|---|
| Aros ichi dderbyn y cynnig | Mae hyn yn nodi bod y cynllun wedi cael ei greu a'i fod yn aros ichi dderbyn y cynnig i ddewis eich cynllun |
| Y cynnig wedi'i dderbyn | Rydych wedi derbyn y cynnig i ddewis eich cynllun, ond nid yw'r cynllun wedi cael ei enwi, neu rydym yn aros ichi ddewis cynllunydd coetir |
| Cynllunydd wedi'i dewis | Rydych wedi dewis cynllunydd coetir ac mae'r cynllun yn aros i'r cynllunydd coetir dderbyn y gwahoddiad |
| Yn mynd rhagddo | Mae'r cynllunydd coetir wedi derbyn eich gwahoddiad i fod yn gynllunydd ichi, a bydd bellach yn dechrau creu eich cynllun coetir |
| Cyflwynwyd | Mae eich cynllunydd coetir wedi cwblhau creu'r cynllun ac wedi cyflwyno eich cynllun terfynol |
| Yn cael ei ddilysu | Mae'r broses ddilysu bellach yn mynd rhagddi |
| Dilysu wedi'i gwblhau | Mae'r broses ddilysu wedi'i chwblhau ac rydym yn aros am y penderfyniad terfynol |
| Wedi’i gymeradwyo | Mae eich cynllun wedi cael ei ddilysu – anfonir llythyr atoch chi yn dweud bod eich cynllun wedi cael ei ddilysu, ynghyd â map o'r cynllun wedi'i ddilysu. Rydych bellach yn cael hawlio ffioedd am greu cynllun a ffioedd am arolygon (os ydynt yn berthnasol ac yn gymwys i'w talu). |
| Wedi’i wrthod | Nid yw eich cynllun wedi cael ei ddilysu ac mae wedi cael ei wrthod – byddwch yn cael eich hysbysu drwy lythyr. Rydych yn cael hawlio ffioedd am arolygon (os ydynt yn berthnasol ac yn gymwys i'w talu) |
| Wedi'i dynnu'n ôl | Gwnaethoch wrthod y cynnig i ddewis eich cynllun felly mae eich cynllun wedi cael ei dynnu'n ôl |